


Chwaraeon RhCT

# Penelope, Leishan a Rhys

## Ysgol Gynradd Hirwaun

Mae'r Llysgenhadon Ifainc yma'n gefnogol tu hwnt ac yn gyfeillgar i eraill yn eu hysgol. Maen nhw wedi cyflwyno hyfforddiant effeithlon a hwyl ar gyfer deg Arweinydd Chwaraeon. Maen nhw hefyd wedi llwyddo i sicrhau cyllid ar gyfer offer i ddechrau Clwb Cŵl ar gyfer plant 5 oed. Nod y clwb yw cynnig cyfle i ddisgyblion gadw'n heini yn ystod amser cinio. Maen nhw hefyd yn ysbrydoli disgyblion o'u dosbarth nhw i gadw'n heini yn ystod amseroedd chwarae, a'r disgyblion 6 i 7 oed hefyd. Mae'r Llysgenhadon Ifainc hefyd yn cyfrannu at amserlen o weithgareddau yn ystod y tymor ysgol. Maen nhw'n mwynhau cyflwyno gemau newydd i ddisgyblion iau ac yn hoffi eu gweld nhw'n gwneud cynnydd, gyda hyder. Maen nhw'n falch eu bod nhw wedi llwyddo i gael offer newydd ar gyfer yr ysgol, a bod yr offer yma wedi helpu eraill i gael hwyl, mwynhau chwaraeon a gwella'u sgiliau.

"Rydw i'n hoffi bod yn Llysgennad Ifanc – mae'n hwyl ac rydw i'n mwynhau pob rhan o'm cyfrifoldebau. Rhan orau fy rôl yw meithrin perthnasoedd gyda fy nhîm a chysylltu gyda disgyblion iau er mwyn iddyn nhw ddechrau mwynhau chwaraeon" – Llysgennad

**LLYSGENNAD IFANC Y MIS - EBRILL 2026**

Chwaraeon RhCT Sport RCT

sportwales chwaraeoncymru

YOUTH SPORT TRUST

RHONDDA CYNON TAF